Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Nyrsio Plas Gwyn**

**Llanychan**
**Rhuthun**
**LL15 1TY**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:*
*psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Nyrsio Plas Gwyn

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Amrit Pelladoah |
| Lleoedd cofrestredig | 30 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Chwefror 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Gwnaethom gynnal arolygiad llawn yn dilyn pryder a godwyd gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd y pryder yn ymwneud â goruchwylio gofal. Mae'r staff gofal yn cael eu cefnogi ac yn fodlon yn eu rolau. Mae'r system electronig ar gyfer cofnodi cynlluniau personol a chofnodion gofal yn effeithlon, yn hygyrch i bob aelod o'r staff ac yn hawdd ei defnyddio. Mae'r cofnodion yn fanwl ac yn cael eu diweddaru a'u hadolygu fel sy'n ofynnol. Mae'r broses o gofnodi anghenion gofal wedi gwella ac yn gyson.

Mae'r staff gofal yn cael yr hyfforddiant gofynnol, gan gynnwys hyfforddiant ar ddiogelu. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gyfarwydd â'r hyn y dylid ei wneud os byddant yn pryderu am rywun. Mae'r cyfathrebu rhwng y staff gofal, y tîm rheoli a gweithwyr proffesiynol yn effeithiol ac yn fynych. Gwelsom nifer o drafodaethau rhwng y rheolwr a gweithwyr proffesiynol mewn perthynas ag anghenion iechyd a gofal y bobl.

Nodwyd bod sawl ardal o'r amgylchedd wedi cael ei haddurno a'i hadnewyddu, gan gynnwys gosod llawr newydd ar y grisiau ac ailaddurno'r ystafell fwyta.

## Llesiant

Mae'r staff gofal yn helpu'r bobl i gynnal rheolaeth dros eu bywydau pob dydd. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am arferion ac anghenion gofal y bobl. Gwelsom y bobl yn cael eu cefnogi gan y staff gofal drwy gydol ein hymweliad a nodwyd gennym fod cydberthynas dda rhyngddynt. Roedd y cofnodion gofal yn gyson ag anghenion gofal y bobl. Mae'r tîm rheoli yn gefnogol ac mae'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gofal a ddarperir a'r amgylchedd yn y cartref wedi gwella.

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan y staff gofal yn ystod  amseroedd bwyd. Gwelsom fod y staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd galonogol a thyner. Mae'r bobl yn ymateb yn dda i'r staff gofal a'r tîm rheoli. Mae gan y tîm rheoli yn gweithredu mewn modd ymarferol a gwelsom gyfathrebu trylwyr a pharhaus â gweithwyr proffesiynol a pherthnasau'r bobl. Mae nifer o ardaloedd cymunedol ar gael yn y cartref, lle y gall y bobl ddewis treulio eu hamser.

Mae trefniadau diogelu ar waith i leihau'r risg i unigolion. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys asesiadau risg perthnasol sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol. Mae'r staff gofal yn dilyn ac yn diweddaru'r rhain yn effeithlon yn ôl yr angen. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a diweddariadau ar ddiogelu. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod yr asesiadau risg yn cael eu hadolygu a'u diwygio o fewn y terfynau amser a phan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r tîm rheoli yn sicrhau bod ceisiadau Amddifadu o Ryddid (DoLS) yn briodol ac yn amserol. Mae'r amgylchedd yn cael ei fonitro'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff risgiau posibl eu dileu.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff caredig ac amyneddgar sy'n sicrhau eu bod ar gael i ddiwallu anghenion gofal y bobl. Gwelsom y bobl yn cael cymorth drwy gydol y dydd gyda'u gofal personol a'u symudedd, ac yn ystod amseroedd bwyd. Mae asesiadau risg priodol a manwl ar waith. Mae'r cynlluniau personol yn electronig ac yn fanwl, a gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Caiff rhai cofnodion eu cadw ar bapur, ac mae eu hansawdd wedi gwella. Caiff y rhain eu hadolygu o fewn y terfynau amser neu pan fydd anghenion gofal yn newid. Mae'r cyfathrebu â pherthnasau a gweithwyr proffesiynol yn fynych, yn barhaus ac yn effeithiol. Gwelsom sawl sgwrs rhwng y rheolwr, y staff gofal, gweithwyr proffesiynol, a pherthnasau'r bobl. Gwnaethom edrych ar sampl o archwiliadau o gynlluniau personol, a oedd yn dangos bod gwelliannau'n cael eu cynllunio pan fydd materion yn codi.

Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar apwyntiadau gofal iechyd a gweithwyr proffesiynol. Gwelsom y rheolwr yn rhannu gwybodaeth am anghenion iechyd y bobl â gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys meddyg teulu a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Dywedodd y gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymweld â'r cartref wrthym fod y cyfathrebu yn effeithiol a'u bod yn cael diweddariadau rheolaidd am newidiadau i anghenion gofal y bobl. Mae'r cofnodion gofal y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys gwybodaeth a gofnodwyd, yn dilyn arweiniad gan weithwyr iechyd proffesiynol. Gwelsom fod y cofnodion yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r arweiniad hwn gan weithwyr iechyd proffesiynol.

Mae dulliau ar waith i ddiogelu’r bobl. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff gofal; maent wedi ymgymryd â hyfforddiant e-ddysgu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau ac mae hyfforddiant wyneb yn wyneb yn cael ei drefnu. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant unigolion. Mae'r broses o rannu digwyddiadau diogelu â'r asiantaethau perthnasol, gan gynnwys yr awdurdod lleol ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi gwella, yn ogystal â'r broses o oruchwylio a monitro digwyddiadau o'r math. Mae'r tîm rheoli yn monitro digwyddiadau er mwyn nodi unrhyw batrymau sy'n codi a sicrhau diogelwch unigolion.

Mae'r gweithdrefnau rheoli meddyginiaeth wedi gwella. Mae hyrwyddwr meddyginiaeth wedi'i ddynodi i arwain y broses ar gyfer meddyginiaethau. Mae'r unigolyn hwn yn gyfrifol am reoli'r broses ar gyfer meddyginiaethau, ac mae'r tîm rheoli yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r broses hon. Mae'r archwiliadau o feddyginiaethau yn dangos bod y broses hon yn cael ei monitro'n effeithiol. Mae'r staff gofal wedi cwblhau hyfforddiant ar feddyginiaeth, gan gynnwys cymwyseddau meddyginiaeth. Roedd y tystysgrifau yn ffeiliau'r staff gofal, y cofnodion goruchwylio, a'r matrics hyfforddiant yn dangos hyn. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus i roi meddyginiaeth. Gwelsom fod pob aelod o'r staff sy'n rhoi meddyginiaeth wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r cymwyseddau priodol. Gwnaethom edrych ar yr ystafell feddyginiaeth, ac roedd tymereddau'r ystafell a'r oergell yn bodloni'r gofynion

rheoliad. Mae'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) yn gywir ac yn glir. Dilynir y gweithdrefnau priodol pan fydd achos o wall yn ymwneud â meddyginiaeth, ac roedd hyn yn amlwg yn ffeiliau'r staff gofal.

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr wedi cymryd camau i wella amgylchedd y gwasanaeth. Mae'r fynedfa i'r gwasanaeth bellach yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn fawr. Mae'r ardaloedd y nodwyd eu bod yn peri risg i ddiogelwch y bobl yn ystod yr arolygiad diwethaf bellach yn ddiogel. Er enghraifft, mae'r dodrefn wedi cael eu gosod yn sownd, mae lloriau newydd wedi'u gosod, mae'r drysau a'r giatiau bellach yn cael eu cloi ac mae'r cysylltiadau trydanol wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r ystafell fwyta gymunedol wedi cael ei hailaddurno a'i thacluso er mwyn galluogi'r bobl i fwynhau eu profiad bwyta mewn amgylchedd golau a ffres.

Gwnaethom edrych ar gynlluniau personol y bobl ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng (PEEPs), sydd wedi'u cofnodi'n glir a'u personoli ar gyfer anghenion unigol, ac y gellir cael gafael arnynt yn hawdd. Caiff gwiriadau diogelwch tân eu cwblhau'n rheolaidd ac o fewn y terfynau amser rheoliadol. Caiff y cymhorthion symudedd eu glanhau, eu labelu, a'u gwirio'n briodol. Mae sgôr hylendid bwyd o 5 (sef y sgôr uchaf) wedi'i dyfarnu i'r gwasanaeth. Mae nifer o welliannau wedi'u gwneud i'r gegin gan gynnwys gosod cypyrddau a phopty newydd. Mae'r darparwr yn monitro ac yn adolygu'r amgylchedd yn rheolaidd.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r darparwr wedi gwella'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r gwasanaeth, ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal y mae'r bobl yn ei gael. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar waith, sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd ac sydd ar gael i bob aelod o'r staff gofal. Gwnaethom edrych ar sampl o archwiliadau a gynhaliwyd gan y rheolwr. Mae'r rhain yn cynnwys archwiliadau o feddyginiaethau, yr amgylchedd, a'r cynlluniau personol. Mae'r rhain yn dangos bod meysydd i'w gwella wedi'u nodi, a gwelsom dystiolaeth bod gwelliannau wedi cael eu gwneud. Er enghraifft, mae nyrs a enwir wedi'i dynodi'n hyrwyddwr meddyginiaeth. Mae'r polisïau meddyginiaeth wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r amgylchedd wedi cael ei adolygu a'i wella. Mae'r cynlluniau personol wedi cael eu gwella, ac maent yn fanwl, yn electronig, ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr yn cael ei gefnogi'n dda gan y darparwr, a gwelsom dystiolaeth o gofnodion ysgrifenedig o sesiynau goruchwylio ffurfiol rhwng y rheolwr a'r unigolyn cyfrifol. Roedd y cofnod hwn yn dangos trafodaethau priodol am ansawdd y gofal, materion a gweithredoedd sy'n effeithio ar ansawdd y gwasanaeth.

Mae'r lefelau staffio wedi gwella ac mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y gofal a ddarperir. Mae hyn yn golygu gall y rheolwr ganolbwyntio ar oruchwylio ansawdd y gofal a ddarperir. Mae'r gwaith cynyddol i oruchwylio ac adolygu anghenion gofal unigol y bobl yn dangos hyn. Roedd y sampl o ffeiliau'r staff y gwnaethom edrych arnynt yn dangos bod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael hyfforddiant sefydlu, ac mae'r broses hon hefyd wedi cael ei hadolygu a'i gwella. Mae ffeiliau'r staff yn dangos bod y staff gofal yn cwblhau hyfforddiant parhaus, ac mae'r cofnodion yn gyson â'r hyn a ddywedodd y staff gofal wrthym yn ystod ein hymweliad a chofnod y matrics hyfforddiant. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae cofnodion y sesiynau goruchwylio a'r cyfarfodydd staff yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd y staff gofal wrthym. Dywedodd y rheolwr wrthym hefyd ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi yn ei rôl. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol rheolaidd. Mae'r rheolwr hefyd yn cael ei oruchwylio'n rheolaidd ac yn ffurfiol gan yr unigolyn cyfrifol, a gwnaethom edrych ar sampl o nodiadau goruchwylio o'r sesiynau hyn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/06/2024